



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

**Prawf Cyfieithu ar y Pryd
10 Tachwedd 2016
Adroddiad Cyffredinol**

YR YMGEISWYR

Dim ond dau ymgeisydd a gafwyd y tro hwn a hynny yn y Groeslon.

Y DARNAU PRAWF

Darn 1: Yr Athro Richard Wyn Jones o Ganolfan Llywodraethiant Cymru yn rhoi tystiolaeth ar y drafft o Fil Cymru i gyfarfod ar y cyd o Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin.

Darn 2: Y newyddiadurwraig Catrin Haf Jones yn cyfweld â Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Elin Jones AC, yn Sesiwn Holi'r Llywydd ym Mhabell y Cymdeithasau, Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016.

Roedd yr aseswyr o'r farn bod y darnau'n rhai heriol ond teg. Er mai gwleidyddiaeth oedd pwnc trafod y ddau ddarn, roeddent yn wahanol iawn eu naw. Y cyntaf yn edrych ar deddfwriaeth ac, ar y cyfan, yn araf a phwylllog a'r ail yn edrych ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol mewn gwleidyddiaeth ac yn cynnig her o ran dehongli'r gwreiddiol, cyflymder a gwahaniaethu rhwng siaradwyr a oedd ar adegau yn torri ar draws ei gilydd. Roedd yr aseswyr hefyd yn teimlo bod y wybodaeth a roddwyd i ymgeiswyr ymlaen llaw yn rhoi trywydd y drafodaeth yn ogystal â chynnig cymorth o ran terminoleg a geirfa.

Y SAFON

Teg yw dweud bod y safon yn is na'r hyn a welwyd mewn profion blaenorol, gan adlewyrchu diffyg profiad o bosibl. Llwyddodd pob ymgeisydd i berfformio'n well yn y darn cyntaf o gymharu â'r ail.

Geirfa

Yn y darn cyntaf roedd yr eirfa gyffredinol yn gymharol gadarn a chlywyd defnydd da o derminoleg briodol e.e. *St David's Day process, Secretary of State for Wales, Lord Chief Justice, Supreme Court, necessity test.*

Yn yr ail ddarn fodd bynnag methwyd â dod o hyd i eiriau cyfarwydd e.e. *Presiding Officer, Shadow Minister, constituency.* Roedd nifer o'r geiriau hyn wedi'u cynnwys yn y wybodaeth am y darnau a roddwyd i'r ymgeiswyr cyn y prawf sy'n awgrymu na fanteisiwyd i'r eithaf ar y cyfnod darllen 15 munud.

Cafwyd hefyd enghreifftiau o gamgyfieithu geiriau sylfaenol megis:

rhesymeg > basis
rhyngweithio > networking
senedd > government
gwleidyddion > ministers
diduedd > honest

Deall, dehongli a chywirdeb

Ymhlyg yn y darnau roedd rhannau a oedd yn gofyn am sgiliau deall a dehongli da.

Yn gyffredinol, roedd y deall a'r dehongli yn well yn y darn cyntaf, a hynny o bosibl oherwydd y cyflymder. Er hynny, cafwyd sawl enghraifft o gamgyfieithu e.e. *mae'r Pwyllgor yn San Steffan yn llawer mwy croesawgar – the committee in Westminster is not so welcoming; symud y tu hwnt i – move towards.*

Yn yr ail ddarn, teimlwyd bod yr ymgeiswyr wedi dehongli'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn weddol pan soniwyd am wleidyddion yn gwneud defnydd o'u cyfrifon Twitter. Fodd bynnag cafwyd anhawster wrth ddehongli Elin Jones yn cyfeirio at 'senedd-dai eraill', a phan oedd yn sôn am boblogrwydd Donald Trump oherwydd y sylw yn y wasg.

Cystrawennu ac idiomau

Prif wendid yr ymgeiswyr yn y prawf hwn oedd y gystrawen a'r gallu i greu brawddegau a oedd yn gwneud synnwyr yn y Saesneg. O'r herwydd, cafwyd nifer o enghreifftiau o gyfieithu trwsogl ac anidiomatig er enghraifft:

edrych o ddifrif > to look really
dwyl ardal sylweddol > two areas which are very, very big
ailadrodd > to say again
croeso atom ni fan hyn > welcome to us here
unwaith i mi glywed > once after I heard

Roedd yna hefyd enghreifftiau niferus o gadw'n rhy agos at gynffon y siaradwr gan orfod mynd yn ôl i geisio twtio a chywiro i'r fath raddau nes ei fod yn amharu ar lif y cyfieithiad, er enghraifft:

problems - political problems,
language - inappropriate language
the most important things - the two most important things
an example – a specific example
a report – a very detailed report

Arddull

Roedd gan bob ymgeisydd leisiau hyderus a dymunol gan wneud ymgais dda i liwio a gwahaniaethu rhwng siaradwyr. Er i bob ymgeisydd lwyddo i orffen cyfieithu'r ddau ddarn roedd yna arwyddion o flinder o ran gwrando a dehongli'r gwreiddiol.

Y CANLYNIAD

Yn anffodus, y tro hwn dyfarnwyd bod y ddau ymgeisydd yn methu. Teimlai'r aseswyr y byddent yn elwa ar ehangu eu profiad a chysgodi cyfieithwyr profiadol. Byddai hefyd yn fuddiol gwrando ar raglenni materion cyfoes Saesneg er mwyn gwella'r cystrawennu.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i annog y rhai sy'n ystyried sefyll y prawf yn y dyfodol i fanteisio i'r eithaf ar yr hyfforddiant a gynigir gan y Gymdeithas, ac yn benodol felly y sesiynau ymarfer ar gyfer y profion cyfieithu ar y pryd. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ymgynffwrdd ag amgylchiadau'r prawf, yn ogystal â chael sylwadau cyfieithydd ar y pryd profiadol ar eu gwaith.

GAIR O DDIOLCH

Fel Dirprwy Arholwr, hoffwn ddiolch i'r aseswyr am eu gwaith manwl a thrylwyr ac i staff y Gymdeithas am eu cymorth a'u harweiniad parod.